ROBERTS, JOHN ('Sion Robert Lewis '; 1731 - 1806), awdur, almanaciwr, ac emynydd

Enw: John Roberts
Ffugenw: Sion Robert Lewis
Dyddiad geni: 1731
Dyddiad marw: 1806
Priod: Margaret Roberts (née Jones)
Plentyn: Robert Roberts
Rhiant: Robert Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur, almanaciwr, ac emynydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Thomas Isfryn Jones

Ganwyd yn 1731 yn Llanaelhaearn, Sir Gaernarfon. Yr oedd yn fab i ffarmwr, Robert Lewis, ac yn ystod ei ieuenctid arferai fugeilio'r defaid i'w dad. Cafodd dröedigaeth wrth wrando ar Howel Harris yn pregethu yn y gymdogaeth a dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.

Ymsefydlodd yng Nghaergybi tua 1760, pryd y cafodd drwydded oddi wrth esgob Bangor i agor ysgol. Gwysiwyd ef o flaen llys Esgob Bangor yn Awst 1765 oherwydd iddo gadw ysgol yn Llaniestyn heb drwydded.

Ysgrifennodd lawer o lyfrau ar bynciau gwahanol. Ymhlith ei lyfrau cyhoeddedig ceir *Rhai Hymnau*, 1760, a ysgrifennwyd gyda chymorth Richard Jones; *Yr Anedigaeth Newydd* 1762, cyfieithiad o lyfryn Saesneg *The New Birth*; *Drych y Cristion*, 1766, sef ail-argraffiad *Carwr y Cymru* cyhoeddedig gan T. Gouge ac S. Hughes 1677; *Hymnau a Chaniadau*, 1764; *Rhyfyddeg neu Arithmetic*, 1768, y llyfr rhifyddeg cyntaf yn Gymraeg; *Geirlyfr Ysgrythurol*, 1773, y geiriadur ysgrythurol Cymraeg cyntaf; *Caniadau Preswylwyr y Llwch*, 1778; *Yr Athrofa Rad*, 1788. Yr oedd y llyfrau a gyhoeddwyd ac a ysgrifennwyd gan Roberts yn werthfawr ond y mae'r awdur yn fwyaf adnabyddus am ei '*Almanaciau*.' Dechreuodd gyhoeddi y rhai hyn tua 1761 a pharhaodd i'w cyhoeddi am 44 blynedd. Ar ôl ei farwolaeth cyhoeddwyd hwy hyd 1837 gan ei fab Robert Roberts.

Yn 1766 priododd Margaret Jones, Bodedern, sir Fôn, a ganed iddynt chwech o blant. Bu farw 19 Medi 1806.

Awdur

Thomas Isfryn Jones

Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Traethodydd, 1856

Enwogion y Ffydd (1880), iv

Revue Celtique (1870–1934), i

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 165-6

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28026597

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu